Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cynwysyddion bwyd polystyren ehangedig

22 Mehefin 2018

## Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

> *Rwy'n ysgrifennu ynghylch Cais Rhyddid Gwybodaeth i gael gwybodaeth am nifer y cynwysyddion bwyd polystyren ehangedig a ddefnyddir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r canlynol:*
> 1. *Sawl cynhwysydd bwyd polystyren ehangedig a brynwyd gan Ystâd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y blynyddoedd ariannol 2013-14, 2014-15, 2015-16, 2017-18?*
> 2. *Beth oedd cost prynu'r cynwysyddion hyn (wedi'i ddadansoddi fesul blwyddyn)?*

Dim ond cofnod o fis Medi 2016 sydd gyda ni o'r cynwysyddion bwyd a brynwyd. Gwnaethom roi'r gorau i ddefnyddio cynwysyddion bwyd polystyren ym mis Rhagfyr 2016. Rwyf wedi rhoi manylion y cynwysyddion bioddiraddadwy a brynwyd ers hynny i roi syniad o nifer y cynwysyddion a ddefnyddir bob blwyddyn. Efallai yr hoffech gynnwys hwn i roi syniad o nifer y cynwysyddion sy'n cael eu defnyddio i gymryd bwyd o'r bwyty.

| Dyddiad | Eitem | Nifer | Cost |
|---|---|---|---|
| *09/09/16 – 06/12/16* | *Cynwysyddion bwyd polystyren ehangedig* | *1,800* | *£271* |
| *06/12/16 – 12/01/17* | *Cynwysyddion bwyd bioddiraddadwy* | *600* | *£104* |
| *12/01/17 – 17/11/17* | *Cynwysyddion bwyd bioddiraddadwy* | *6,900* | *£1,194* |
| *08/01/18 – 08/06/18* | *Cynwysyddion bwyd bioddiraddadwy* | *5,000* | *£712* |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@ynulliad.cymru
Gwybodaeth-request@cynulliad.cymru

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF